Cryfhau Partneriaeth Gymdeithasol

Strengthening Social Partnership

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Grymuso Sefydliadau i ymgorffori Partneriaeth Gymdeithasol

## Cyflwyniad

Mae'r pecyn partner hwn wedi'i gynllunio ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn ddarostyngedig i ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, ond sy'n dymuno ymgorffori diwylliant Partneriaeth Gymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo gwaith Partneriaeth Gymdeithasol fel y Ffordd Gymreig, dull a nodweddir gan gydberchnogaeth ac ymrwymiad i ddatblygu consensws a chyfaddawd mewn meysydd sydd o fudd i bob parti.

Mae'n fodel sy'n goresgyn ffiniau, ac ni ddylid ei gyfyngu i leoliadau na sefydliadau sy'n dod o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth yn unig. Gall mabwysiadu Partneriaeth Gymdeithasol yn wirfoddol wella effeithiolrwydd sefydliad a hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn y gweithle. Drwy gynnwys gweithwyr mewn penderfyniadau allweddol, gallwn feithrin gweithlu llawn cymhelliant ac ymrwymiad, sy'n hollbwysig er mwyn darparu gwasanaethau yn effeithiol.

Dylai rhoi llais cryfach i weithwyr wrth ddarparu gwasanaethau arwain at fwy o foddhad yn eu swydd, lefelau cynhyrchiant uwch, a gwell ansawdd gwasanaeth cyffredinol. Pan fydd gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi, maent yn fwy tebygol o ymroi a theimlo cymhelliant, a all arwain at weithredu mwy arloesol ac amgylchedd gwaith mwy cadarnhaol. Yn ogystal, gall cynnwys gweithwyr mewn penderfyniadau helpu i nodi a mynd i'r afael â phroblemau yn fwy effeithiol, gan arwain at ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol.

## Beth yw Partneriaeth Gymdeithasol?

Fframwaith ymddygiadau yw Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr neu undeb(au) llafur cydnabyddedig sy'n cydweithio, gyda'r nod o hyrwyddo buddion cyffredin i'r naill bartner a'r llall, a sicrhau penderfyniadau cynhwysol. Mae'n seiliedig ar ymddiriedaeth, parch a nodau a rennir, gan feithrin amgylchedd lle mae'r holl randdeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd tuag at amcanion cyffredin.

Bydd yna rai materion na ellir cytuno arnynt drwy Bartneriaeth Gymdeithasol, ond nid yw hynny'n tynnu oddi wrth fanteision cyffredinol y dull gweithredu hwn wrth ddatblygu cydberthnasau hirdymor sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng partneriaid cymdeithasol.

## Manteision Partneriaeth Gymdeithasol

### Dulliau Cyfathrebu Gwell:

**Mae sianeli cyfathrebu agored rhwng rheolwyr a gweithwyr yn arwain at well dealltwriaeth a datrys problemau yn gyflymach.**

### Mwy o Ymgysylltiad â Gweithwyr:

**Mae cynnwys gweithwyr mewn penderfyniadau yn rhoi hwb i forâl a chynhyrchiant.**

**Gwell Cydberthnasau yn y Gweithle:**

**Gall cydweithio leihau gwrthdaro a meithrin amgylchedd gwaith mwy cytûn, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth.**

**Mantais Gystadleuol:**

**Gall dilyn egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol wella enw da, ymddiriedaeth rhanddeiliaid, a chyfleoedd caffael cyhoeddus.**

# Pam mae Partneriaeth Gymdeithasol yn gwneud synnwyr o ran busnes

## 1. Mae'n Diogelu eich Sefydliad i'r Dyfodol

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn ailgyfeirio'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu. Er nad yw pob sefydliad wedi'i rwymo'n gyfreithiol gan y Ddeddf, mae dilyn ei hegwyddorion yn rhoi mantais ichi i'r dyfodol. Mae'n arwydd o barodrwydd ac yn dangos bod gennych yr un blaenoriaethau â Llywodraeth Cymru - fel gwaith teg, lles a busnes sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

## 2. Mae'n Meithrin Gwytnwch Sefydliadol

Mae Partneriaeth Gymdeithasol yn meithrin cydberthynas o ymddiriedaeth rhwng cyflogwyr a gweithwyr. Mae hyn yn arbennig o werthfawr mewn cyfnodau o ansicrwydd, boed economaidd, amgylcheddol, neu gymdeithasol.

## 3. Mae'n Gwella Ymgysylltiad â'r Gweithlu a'r Gallu i Ddal Gafael Arnynt

Mae sefydliadau sy'n rhoi llais i weithwyr wrth wneud penderfyniadau yn nodi morâl uwch, lefelau is o ran trosiant staff, a gwell darpariaeth gwasanaeth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i sectorau sy'n wynebu heriau recriwtio a chadw staff.

## 4. Mae'n Cryfhau eich Statws o ran Gwerth Cymdeithasol

P'un a yw'n fater o wneud cynnig am gontractau cyhoeddus neu o ymgysylltu â chymunedau, mae dangos ymrwymiad i waith teg, llywodraethiant cynhwysol, a chaffael moesegol yn gwella eich hygrededd. Mae Partneriaeth Gymdeithasol yn ffordd ymarferol o ymgorffori'r gwerthoedd hyn yn eich gweithdrefnau.

# Casgliad

Gall mabwysiadu a chroesawi'r dull Partneriaeth Gymdeithasol drawsnewid eich sefydliad, gan feithrin diwylliant o gydweithio, ymddiriedaeth a pharch rhwng pob parti. Drwy ddilyn y camau a amlinellir yn y pecyn partner hwn, gall sefydliadau nad ydynt yn ddarostyngedig i ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol hefyd elwa o'r fframwaith blaengar a chynhwysol hwn.

Cofleidiwch egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol a phrofwch yr effaith gadarnhaol ar eich gweithle.

# Adnoddau Defnyddiol

Animeiddiad: Partneriaeth Gymdeithasol - Y Ffordd Gymreig https://youtu.be/3-1c1jzFd2A

Astudiaeth Achos: Fforwm Manwerthu.

Cofrestru ar gyfer y cylchlythyr: Tanysgrifio i gylchlythyr Partneriaeth Gymdeithasol | LLYW.CYMRU.

Dysgu Ar-lein: Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): taflen dysgu ar-lein am ddim | LLYW.CYMRU.

# Rhagor o wybodaeth

Cysylltwch â'r tîm Partneriaeth Gymdeithasol yn Llywodraeth Cymru drwy e-bostio PGCGT@llyw.cymru neu ewch i'r wefan: www.llyw.cymru/deddf-partneriaeth-gymdeithasol-chaffael-cyhoeddus-cymru.

# Fframwaith Partneriaeth Gymdeithasol Hyblyg

| Cam | Sylfaenol | Gweithredu Pellach |
|---|---|---|
| 1. Ffurfio Tîm Partneriaeth Gymdeithasol | Nodi un pwynt cyswllt (e.e. rheolwr tîm neu arweinydd AD) i weithredu fel cyswllt ar gyfer gweithgarwch partneriaeth. | Creu gweithgor sy'n cwmpasu swyddogaethau, gan gylchdroi cynrychiolwyr gweithwyr. |
| 2. Cynnal Hunanasesiad | Defnyddio rhestr wirio syml neu arolwg pwls 15 munud i asesu arferion ymgysylltu a chyfathrebu cyfredol. | Mabwysiadu'r Offeryn Hunanasesu llawn o Bennod 4 (Tudalen 8) y Llawlyfr Partneriaeth Gymdeithasol. |
| 3. Dysgu am Bartneriaeth Gymdeithasol | Gwylio animeiddiad Y Ffordd Gymreig a'i rannu mewn cyfarfod tîm. | Cofrestru staff ar gwrs llawn Dysgu@Cymru a chynnal sesiwn drafod. |
| 4. Datblygu Cytundeb Partneriaeth Gymdeithasol | Creu datganiad un dudalen ar Ffyrdd o Weithio ar y cyd â staff. | Datblygu Cytundeb Partneriaeth Gymdeithasol ffurfiol gyda chylchoedd adolygu. |
| 5. Hyrwyddo Penderfyniadau Cynhwysol | Ychwanegu eitem agenda sefydlog ar gyfer mewnbwn staff mewn cyfarfodydd tîm. | Sefydlu fforymau rheolaidd neu blatfformau digidol ar gyfer awgrymiadau ac adborth strwythuredig. |
| 6. Monitro a Gwerthuso Cynnydd | Defnyddio cyfarfodydd tîm chwarterol neu bolau dienw i gasglu adborth. | Gweithredu dangosyddion perfformiad allweddol ac integreiddio adborth i adolygiadau AD neu lywodraethiant. |

OGL © Crown copyright 2025, Llywodraeth Cymru, WG52457
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh